



# Llais y Llan Hydref 2021

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Tachwedd 26 2021

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Dwy olygfa arall o Lanpumsaint o'r awyr gan John Hubert. Gellir gweld rhagor ar <https://tinyurl.com/25e5b5dt>. Diolch yn fawr John.



Gwead yr Hydref (Edward Davies)



Bwganod yn y Cylch (Verona)




Gwennoliaid dan y bondo (Helen Thomas)



Y gwennoliaid yn ymbaratoi am ymadael (Helen Thomas)



Y gath naw bywyd (Edward Davies)



Gwennol fach ar Lwr dros dro (Clare Bishop)

## Dyddiadau a rhifau ffôn defnyddiol

Becky Ffrwythau 07969 047045

Roz Trin Gwallt 07398 620649

I logi'r Neuadd 01267b253028 [llanpumsainthallbooking@gmail.com](mailto:llanpumsainthallbooking@gmail.com)

**Bowliau** - Neuadd Neuadd Llanpumsaint Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30

**Cyfarfod Blynnyddol Cefradine yn y Neuadd** – croeso i bawd ddod y gynnig cymorth

1. Gyfnewidfa Gwybodaeth (Llais I Llan) 2 Tachwedd 7.30
2. Neuadd Goffa 9 Tachwedd 8.00

## Clwb Gwili

Hip hip hwre! Bydd clwb Chwedeg Gwili yn ail gychwyn yn Neuadd Bronwydd am 2.00 Ddydd Llun.

25ain Hydref - Bydd Jeremy John yn siarad

11eg Tachwedd - Y siaradwr fydd Arwyn Thomas

8 fed Rhagfyr Cinio Nadolig – Lleoliad yw drefni.

Cysylltydd Val Giles. 01267 281194

Herlfa Drysor Car – Dydd Sadwrn 23 Hydref

Cwis Hollybrook 8.00 Hydref Nos Sul 31

Cynhelir y Cyfarfod . Cyngor Cymuned Llanpumsaint 7.30 Neuadd Goffa Nos Fercher 3 Tachwedd

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint – Y diweddaraf i'r Hydref

Daeth nawr yr Hydref yn ei dro gydag wyneb y cae chwarae'n casglu dail a'r borfa'n trymhau dan bwysau'r gwlith boreol. Erbyn hyn ymddengys heulwen gynnes Awst yn bell i ffwrdd, ond gwnaed defnydd cyson o'r Cae dros yr Haf. Gwnaeth Her y Mil o Filftiroedd sicrhau cefnogaeth frwd y gymuned i gasglu arian at achosion da.

Her uchel fu gofyn am droedio pum mil o weithiau o amgylch y llwybr dros gyfnod o ddeg diwrnod a hynny'n gyfystyr a mil o filftiroedd o ran pellter. Gwelwyd rhai wrthi'n gynnar y bore ac eraill yn cyflawni ei nod hyd at frig y nos. Bu'n hwb i rai codi'n gynnar a'i wneud yn rhan o'u gorchwyl boreol. Bu rhedwyr profiadol eraill yn cystadlu erbyn ei gilydd, a gwnaeth hyn luosogi'r milltiroedd a gyflawnwyd yn ddyddiol.

Cyflawnwyd 2,778 lap a hyn yn gyfanswm o 572 milltir. Codwyd £2,000 o bunnoedd oedd yn cynnwys £500 oddi wrth HSBC. Bu 5 mil o laps yn ormod o fynydd, ond mi wnaeth yr Her ddod a'r gymuned at i gilydd, ac yn gyfle i fwyhau gweddill yr Haf. Bydd yr holl elw'n cael eu rhannu rhwng Uned Gofal y Fron Llanelli a'r Gronfa cynnal a chadw'r Cae Chwarae. Enillydd y mwyaf o lapiau gyda 319 oedd ein haelod o'r Pwyllgor Lee Davies oedd yn cynnwys cant mewn un diwrnod. Da Iawn Len! Diolch i bawb wnaeth gymerid rhan a chyfrannu'n ariannol. Croesewir sylwadau a syniadau am beth i neud tro nesa'.

Y newyddion arall yw bod y Pwyllgor yn dadansoddi canlyniadau'r Arolwg o ddefnydd y Cae Chwarae a fu'n gyfle i bawb fynegi barn am yr hyn yr hoffent weld yno yn y dyfodol. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu.

Trefnir Helfa Drysor gan y Pwyllgor ar Sadwrn 23ain o Hydref, hyn yn dilyn llwyddiant ysgubol yr un yn 2019. Gwelwch yr hysbys wedi ei gynnwys yn y rhifyn hwn o'r Llais. Rydym hefyd yn awyddus am aelodau newydd, ynghyd a swydd Ysgrifennydd sy'n wag ar hyn o bryd. Am fwy o wybodaeth ynghyn ag ymuno neu wybod am ein gweithgareddau ewch i [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) [<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>](mailto:<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>) neu siarad ag Aaron 07814157946

## Golygfeydd Llanpumsaint y HD

Er nad wy'n byw 'na rwy'n hoffi Llanpumsaint ac wedi troedio'r llwybrau cyhoeddus. Cerdded yw'r ffordd orau o ddod i adnabod lle a'i werthfawrogi. Cred rhai bod gyrru drwy rywle yn ddigonol ond ni wyddai un boi ar i feic wrth anelu am Frechfa, fod yna ysgol ac eglwys yma. Yn 2019 gwnaeth ein mab sy'n dynnwr lluniau o ran swydd ein hanog i brynu cwadcopter (neu ddrôn i rai) gyda chamera. 'Roedd yn ddigon bychan i'w gario yn eich poced i'm galluogi i weld a gwerthfawrogi mannau lleol. Nid yw'n cymhari â cherdded beth bynnag ond mae'r lluniau o uwchben yn fodd i ddyfnhau ein profiadau lleol.

Oherwydd yr haint a henaint ni theithiais ymhell iawn nac yn beryglus er mwyn sicrhau lluniau clodwiw o'r awyr. Maent bron i gyd o ffermydd a phentreifi lleol. Er mwyn elwa o'r cyfle rhaid i'r i bob taith uwchben fod mewn amgylchiadau perffaith. Wrth ymweld â Llanpumsaint ar y 14eg o Fedi llwyddais i gael lluniau da iawn o wahanol rannau o'r pentref, felly 'rwy'n eich gwahodd i'w gweld ar Google Photos a dyma'r cyswllt i Lanpumsaint Views -

A ) <https://photos.app.goo.gl/A8TMf9pSKtLRT5hH9>

B ) <https://tinyurl.com/25e5h5dt>

C ) Llanpumsaint views in HD

T rheswm dros gynnwys HD yn y gyfrol oherwydd hwn yw'r cyswllt presennol i'r teledu, ac mi lwythwyd y lluniau i bicseli 1920~1080. Mae hyn yn sicrhau llawr lwytho ac uwch lwytho i wahanol beiriannau. Gellir chwyddo ymhellach ond ymddengys y lluniau bedair gwaith yn fwy allan o'r camera.

### Gair o Gyngor wrth wyliau

Yn orau wrth wyliau ar Windows. Cliciwch i'r chwith neu'r dde i agor y llun neu ddefnyddio'r saeth ar y dde w weld y llun nesaf. Daw'r canlyniad gorau o ddefnyddio sgrin lawn, drwy wasgu'r allwedd F11. Uwchben ar y dde gwelwch fotwm arall i chwyddo' llun, a hefyd nifer o ddotiau er mwyn cynnal sioe weledol. Gellir hefyd llawr lwytho un neu gyfres o luniau. Maent yn agored i'w copio a'u defnyddio at unrhyw bwrm pas synhwyrol.

Hoffaf gymharu'r lluniau gyda mapiau Bing OS a Google Earth. Gall dilyn trywydd afon fod yn dipyn o addysg. Gobeithio y gnewch fwynhau'r lluniau yma o'n hardal. John Hubert

## Clwb Cant Llanpumsaint

Dyma enillwyr Medi, Hydref a Thachwedd

Medi - £20 – rhif 23 Heledd Jones. £15 – rhif 25 Aaron Jones, £10 – rhif 90 John Francis

Hydref - £20- rhif 02 Valerie Lock, 15- rhif 60 Pamela Jones, £10- rhif 53 Carolyn Smethurst

Tachwedd - 20- rhif 41 Gavin Harding, £15- rhif 89 Mandy Jameson, £10- rhif 47 Jayne Hughes

Llongyfarchiadau i'r uchod.

Cewch ganlyniad y tynnu Nadolig yn y rhifyn nesaf o'r Llais. Bydd yna 15 gwobr gyda £100 i'r gorau. Yno hefyd fydd canlyniad Ionawr a hwn fydd yr olaf o gyfres 2021-2022. Hwn fydd yr olaf i mi eu rhedeg felly gobeithio fod yna rywun yn barod i gymerid yr awenau a chysylltu â'r Pwyllgor Lles ac Adloniant. Gellir trafod gyda'r Trysorydd Heledd Jones 01267 253372 neu minnau am fwy o wybodaeth. Mae'r holl elw yn mynd tuag at gynnal a chadw'r Cae Chwarae a'r holl gyfarpar. Derick Lock – Trysorydd y Clwb Cant 01267 253524

## Curad Calon Llanpumsaint

Dymar criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfy wiwr mwn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r Adfywiwr gallwch fenthyg y pecyn ymarfer oddi wrtho i, a chyfle felly i'w ddangos i aelodau eraill o'ch teulu. Hyd yma ni ddefnyddiwyd un o'r peiriannau yma yn yr ardal, ond pwy a wyr pan ddaw galw, felly mae ymarfer ymlaen llaw yn fodd i arbed bywyd. Carolyn Smethurst 01267 253308 info@gwilimill.com

## **Clwb Bowlio Dan Do Nebo a Llanpumsaint**

Etholwyd y swyddogion canlynol yn ein Cyfarfod Blynnyddol yn y Neuadd ar 13eg o Fedi. Cadeirydd - Derick Lock. Ysgrifenyddes - Jill Edwards Trysorydd - Gethin Edwards. Archwilydd - Huw Williams Capten - Aled Edwards is-gapten - Peter Giles. Swyddog Covid - Huw Williams. Swyddog Diogelu Plant - Derick Lock a Huw Williams. Lluniaeth adeg gemau - Jill Edwards.

Rhyddhad o'r mwya' oedd hi lanhau'r llwch bant o'r peli a dechrau chwarae unwaith eto er bod hynny ychydig yn wahanol nawr gyda chyfyngiadau'r haint. Rhaid aros i weld pa ffurf welwn i'r Gynghrair yn y tymor newydd. Estynnir croeso cynnes i'r ddau chwaraewr newydd sef Ian a Ioan Day a chroeso 'nol i Arwel Nickolas i'w hen gynefin.

Dilynwch ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf Llanpumsintsmbc.org

---

### **Cadw'r Adar yn iach**

Bu yna achosion o afiechyd adar yn yr ardal yn ddiweddar yn arbennig gyda'r asgell fraith. Fel arfer bydd haint yn lledu pan fydd tail yn cymysgu gyda bwyd adar. Mae'r RSPB yn cynnig y cyngor canlynol -

Archwilio'r safle fwydo. Os ydy'r bwyd yno am ddyddiau rhowch lai allan.

Cadwch y safle'n lan o hen fwyd a thail

Symud y safle bob rhyw fis er mwyn osgoi cynnydd mewn bacteria.

Glanhau safleoedd bwyd adar yn aml a gwneud hynny bob tro tu fas i'r tŷ. Peidiwch ddefnyddio'r bwced ac offer at unrhyw bwrvpas arall er mwyn osgoi trosglwyddo heintiau. Gwisgwch fenig a chofiwch olchi dwylo.

Dylai cynnwys y safle wedyn gael eu gosod mewn bin sbwriel bob tro.

Dylid brwsio'r safle yn llwyr gan ddefnyddio sebon ac ychwanegu dŵr oer i orffen y glanhau. Byddai defnyddio diheintydd yn fod i waredi safle o unrhyw chwilog, ac yna ychwanegu digon o ddŵr oer wedyn.

Newidiwch y dŵr lle maent yn yfed yn ddyddiol oherwydd gall tail lygru'r lle.

Os welwch adar wedi eu heintio yn eich gardd yna peidiwch fwydo am o leia' pythefnos er mwyn annog yr adar i ffwrdd o'r safle. Hefyd byddai'n gall i adael y piser dwr yn waglaw nes i'r haint ddiflannu. Peidiwch ail fwydo nes eich bod yn sicr nad oes adar claf o gwmpas.

Claire Bishop

### **Naw Bywyd**

Ddim ond i ni'n Panteg alle hyn ddigwydd! Rydym ar hyn o bryd yn mabwysiadu Cafalier o'r Mudiad Achub. Er iddynt ddiodde' anhwylderau yn fynych rydym yn hoff o'r brid. Yn bwriadu cyrraedd y milfeddyg ym Mhorth Tywyn erbyn 9.30 bant a ni, ac wrth barcio yno clywsom ryw fiaaw fach wanllyd. Pwyntiodd Edward at Seiamis ffroenuchel yn gorwedd yn y bocs esmwyth. I dorri'r sori'n fyr wedi dychwelid i Banteg bant a ni wedyn i Tesco i glicio a chasglu. Daeth Miaaw arall ac Edward yn amau fy mod wedi bod wrth y botel sieri, ond nawr fe glywedd y ddau ohonom Fiaaw arall.

Erbyn hyn a hithau'n pistyllo'r glaw gwariodd Edward ddwy awr yn ceisio dod o hyd i ffynhonnell y gri gan wlychu'n stêcs i'r fargen. O agor y fonet dyna le 'roedd cath fach ddu a gwyn yn eistedd ar y peiriant. Rhaid bod gan y gath fach hon naw bywyd, wedi goroesi taith i Borth Tywyn a nôl, wedyn lawr i Tesco ac yna 'nol adre i Banteg. Tebyg iawn i'r newyddion ein bod yn mabwysiadu cathod wedi mynd ar led ac felly penderfynodd ein harwr du a gwyn gartrefu gyda ni. Un fach ewn yw hi ond mae ein cath arferol, sef Pansy, yn llai na phles. Sylvia Davies

## Newyddion Eglwysig Medi 2021

Llanpumsaint – Bronwydd – Llanllawddog.

Gwasanaethau Zoom - Boreol Weddi 9yb Mercher - 10yb Sul

Gwasanaethau Cymun 2yp - pawb yn ei dro - gan gynnwys Sant Alban Cwmduad.

Cylch DOT o oed 10 ymlaen ar Nos Iau

Mwy o wybodaeth ar ein tudalen facebook

<https://www.facebook.com/llanpumsaintbronwyddllanllawddogchurches>

A chadwch lygad ar yr hysbysfwrdd hefyd.

Gellir cysylltu â'r Parch Gaynor [gaynorjones-higgs@cinw.org](mailto:gaynorjones-higgs@cinw.org) <mailto:gaynorjones-higgs@cinw.org>



**Peace Mala**

## HEDDWCH MALA – PEACE MALA

Creu addysg Drugarog i rymuso a chofleidio pawb

Ysgrifennaf yn hydref 2021 sy'n ugain mlynedd ers 9/11, digwyddiad erchyll wnaeth newid y byd am byth. Cofiaf wylio'r teledu yn anghredadwy ac mewn sioc y dydd hwnnw, profiad bythgofiadwy. Ond mae 9/11 y tu allan i brofiad ein cylch DOT.

Ffrwyth y digwyddiad fu arswyd a dryswch wnaeth fwydo hiliaeth, rhagfarn ac anghytgord, sydd gyda ni o hyd. Mae DOT ar hyn o bryd yn anelu at achrediad Heddwch Mala. Dyma fudiad sydd wedi ennill nifer o wobrau a ddechreuwyd gan Pam Ifans yn 2001 pan oedd hi'n gweithio fel Pennaeth Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Coedcae Llanelli.

Dyweddodd Pam “ Sylweddolais bryd hynny nad oedd ein cymdeithas leol wedi ei harbed o effeithiau 9/11 Daeth ffobia gwrth Islam a gosodiadau hiliol yn gyffredin yn ein hysgol a bu yna ymosodiad hiliol ar y Mosg lleol. Yn yr un flwyddyn halogwyd Synagog yn Abertawe”.

Mae Heddwch Mala yn canolbwytio ar un RHEOL AUR. Y bwriad yw addysgu ac atgoffa pawb fod y rheol hon yn cael ei chydnabod gan ddisgyblion, athrawon, ac athronydd. Mae hefyd yn gyffredin i bob crefydd. Yn syml dyma hi -- Trafodwch eraill fel y dymunech iddynt hwy wneud a chi!

Wrth i'n hieuengtiaid anelu at fyw'r neges Heddwch Mala hon gobeithiwn weld yr holl gymuned yn ymuno felly. Ceir mwy o wybodaeth am Heddwch Mala ar <http://www.peacemala.org.uk/>

## Gwasanathau Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

## Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

**Caersalem** - Os byddwch chi am ddod i'r cwrdd, ffoniwch 253895 am fwy o fanylion

## Y Railwe

Fel y gwyddoch mai'r Railwe wedi cau felly dyma neges oddiwrth Liz a Wayne --- “Tor calon yw hi roi'r neges yma. Oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth ni fydd y Railwe ar agor bellach. Hoffwn elwa ar y cyfle i ddiolch i'n holl gwsmeriaid a'n ffrindiau am eu cefnogaeth dros y tair blynedd olaf yma. Diolch o galon unwaith eto!”

Mae'r pentref a'r ardal hefyd yn diolch i Liz a Wayne am eu gwaith dros y cyfnod - bwyd da, cwrw da a chwmni da. Diolch hefyd am y lilis ar y Bar. Rhwydd hynt i'r dyfodol, fe welwn eich ishe ac iechyd da.

(Gadawyd y canlynol allan o rifyn Awst felly dyma hi gydag ymddiheuriad i Becky)

## Rhandir Llanpumsaint

Fi yw Becky, ar hyn o bryd yn edrych mas at Loch Ness gyda gwydraid o win yn fy llaw ond oherwydd y gwybed yn crafu fel hen gi a chlafar y cwn arno. Rhoddodd Rosie y gore iddi gan fy ngadael i fel cyfrannwr i Lais y Llan gan taw fi yw'r Ysgrifenyddes. ‘Rwy’n dwp ynghyn a garddio gan adael y cwbl i’r wraig brydferth Nat. Felly os welwch ni o amgylch y pentre’ holwch hi am y mater oherwydd ganddi hi mae’r llyfrau.

Er hynny ‘rwy’n gallu adnabod prydferthwch, ac mae Rhandir Llanpumsaint yn enghraifft dda. Waeth beth yw’ch tymer o gyrraedd yno a gweld pethau’n tyfu daw naws hamddenol drosoch. Hyd yn oed wrth ddwrhau fe welwch y gwenyn wrthi’n casglu’r paith, a heb eu cymorth hwy ni allem oroesi. Dywedodd rywun wrthyf pe bae’r gwenyn yn diflannu fory ni fydda yna fwy na deunaw mis o fwyd ar ôl i ni ddynoliaeth. Sylw ddigon i’n sobri!

Gwnaeth Rhandir (Eirian) roi llwyth o domatos i elusennau, aeth pob un gyda chais am ragor i ddilyn. Ond heblaw’r gwenyn gwelwyd nifer o bethau arall lan yn y Rhandir, gyda thylluan yn hedfan obiti. Efalle taw hon sy’n nythu yn yr Eglwys gyda thy Haf yn adeilad y Co-op. Mae yna ddraenog yma hefyd a chathau gwylt rai wythnosau ‘nol. Marlene yw’r arbenigwraig ar erlid cathod mas o’r tŷ.

Mae natur yn ein cadw i fynd, gyda’r Rhandir yn chwarae ei rhan a hefyd trigolion Llanpumsaint. Gan i’r Rhandir wynebu’r dafarn mae’n handi am beint. Wedi canfod gin mefus a melon ddŵr. Tafarn bendigedig yn nwyo cyfeillgar ond yn rhy ddeniadol o lawer Drwg gennym Wayne a Liz eich bod yn gorfod cau. ‘Nol yma’n Loch Ness sylweddolaf nad wyl wedi gweld rhyw lawer o fywyd gwylt felly Llanpumsaint a’r Rhandir amdani!

Am fwy o wybodaeth ynghyn a’r Rhandir cysylltwch â Rosie 07950411536 neu [RosieFrewin@yahoo.co.uk](mailto:RosieFrewin@yahoo.co.uk) <<mailto:RosieFrewin@yahoo.co.uk>> neu siarad â Ray 253157

## Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

### Ail agor

Newyddion da! Mae’r Neuadd wedi ail-agor ac wedi croesawi rhai grwpiau yn ôl yn barod. I ni’n cadw asesiad risg cyfredol ac yn disgwyl i’r rhai sy’n llogi’r neuadd i wneud asesiad risg hefyd er mwyn sicrhau ein bod ni’n cadw’r gymuned mor ddiogel â phosib.

Er mwyn llogi’r Neuadd a wnewch chi gysylltu ag Ann trwy e-bost

[Llanpumsainthallbooking@gmail.com](mailto:Llanpumsainthallbooking@gmail.com) neu ar 01267 253028 a gadael neges iddi.

### CCB

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cael ei gynnal ar y 9fed o Dachwedd am 8yh, yn y Neuadd. Rydyn ni’n awyddus i groesawu aelodau hen a newydd ymuno a ni o’r gymuned.

### Cronfa Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa

Diolch yn fawr iawn i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa a wnaeth dyfarnu grant o £15794 i gael y neuadd yn barod i’w hail-agor.

Rydym yn ffodus bod y grant wedi ein galluogi i wneud rhywfaint o waith uwchraddio oedd ei angen megis llawr newydd ac addurno.

## Llanpumsaint – Llais Digidol

Cyfeiriwyd at Lais Digidol yn y rhifyn diwethaf. Bydd yr erthygl hon yn egluro sut wnaethom sefydlu Llais Digidol a pha rwystrau y dylid eu hosgoi. Mae yna ddwy ran i ddilyn, un i'r rhai sy'n defnyddio band eang BT a'r llall i'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r band eang. I ddileu fy mhryderon bûm yn siarad â swyddogion BT a dyma'r canlyniad.

Defnyddwyr band eang BT

Openreach sy'n rhedeg rhwydwaith digidol y wlad sy'n Is-gwmni i BT. Rhyw ddeufis 'nol penderfynodd Openraech pe bae anhawster gyda'r hen wifren ffon gofr, ni fyddent yn ei atgyweirio. Bydd Copr yn diflannu'n gyfangwbwl erbyn 2026. Ar hyn o bryd effeithia hyn yn unig ar ddefnyddwyr band eang BT. Fe'ch rhybuddir os daw toriad ar y cyflenwad i dorri'r gwasanaeth band eang ni ellwch wneud galwadau ffôn - hyd yn oed 999 - ac mi fydd raid defnyddio dull arall ee. Ffon symudol.

Codais a mater hwn gyda BT ac mi adroddaf yn ôl pan ddaw ateb wrthynt. Cost batri wrth gefn yw £80 sy'n weithredol am awr yn unig .Gall ddod am ddim i ddefnyddwyr bregus ond ni ddifiniwyd pwy sy'n fregus.

'Does dim E-bost gan bawb felly os daw newyddion pellach byddaf yn ei arddangos ar hysbysfwrdd y Neuadd. Os ydych yn defnyddio band eang BT cewch fel fi lythyr yn dweud eich bod yn cael eich symud i'r Llais Digidol yn fuan. Falle fod e' wedi cyrraedd!. Daeth E-bost i ni rai wythnosau 'nol yn dweud ein bod yn cael ein symud mewn rhyw wythnos, ond bu raid i ni newid y dyddiad oherwydd ein bod i ffwrdd. Mae hyn yn golygu datgysylltu eich gwifren ffon o'i safle a'i gosod yn Hwb BT. Oherwydd i'n brif ffon fod lawr llawr ond yr Hwb lan star yr oedd yna broblem felly cysylltais â BT, a dyma gychwyn cymhlethdod.

Yr oedd angen ffon newydd allai gysylltu â'r Hwb neu addasu i'r prif gyflenwad. Daw'r teclyn addasu yn rhad o BT ac yn alluog i gysylltu â'r diwifr yn y wal, yna cysylltir y ffon iddo. Gyda ni osodwyd hyn lawr llawr.

Gofynnais a fyddai fy holl rifau ffôn cadw nawr yn ddiogel ond ni wyddent hynny. Datgelodd hefyd i'r teclynnau cyswllt yma fod mas o stoc gan addo anfon un cynted a phosib. Gofynnais iddo beth pe bae toriad trydan yn digwydd ond ei ymateb oedd mynd drws nesa, fyddai'n ddim i gymorth pe bae'r mast wedi methu. Ond daeth y teclyn acw mewn diwrnod.

Gofynnais eto pwy allai ateb fy amheuon a dywedodd mai fe oedd yn dyn. Dyna pam 'rwy wedi adrodd yr holl stori i chi er nad wy'n arbenigwr ar y mater. Addawodd fy ffonio'r dydd ar ôl hynny ond heb lewyrch. Daeth y newid o'r diwedd ar y 13eg o Fedi a'r noson cynt dyma E-bost i ddatgan y byddai Llais Digidol yn weithredol rhwng 8 y bore ac un funud cyn hanner nos. Am 8.18 y bore neges E-bost arall fod popeth yn gweithio . Erbyn hyn 'roeddwn wedi paratoi'r teclyn a'i gysylltu'n hwylus i'r Hwb a'r soced ffon. Erbyn darllen yr E-bost aeth popeth yn farw a'n gadael heb ffon o gwbl. Yr unig ffordd daw yn fyw yw datgysylltu'r ffon o'r wal a'i gosod gyda'r cysylltydd.

Felly gallwch golli eich gwasanaeth ffon tra eich bod yn cysgu neu i ffwrdd rywle arall felly gwnewch yn siŵr fod BT yn eich gwasanaethu'n iawn.

Unwaith daw'r sŵn deiau bydd y gwasanaeth newydd yn weithredol gan warchod eich holl rifau ffôn cadw. Ond bellach rhaid cynnwys cod llawn yr ardal hefyd. Ee 01267. Mae pethau yn gweithio er i'r deiau fynd a dod ychydig, peth eco ond nid o'r safon uchel addawyd. Ffonias BT 0800 899 150 opt2 a gofynnwyd i mi ail osod y cysylltydd a rhoi gwybod iddynt a fuodd yna welliant. Maent hefyd yn edrych i mewn i'r materion eraill ynghyn a cholli'r cyflenwad. Erbyn hyn mae ansawdd y sŵn wedi gwella.

Defnyddwyr Heb y band eang

Ar hyn o bryd y dewis yw cysylltu â'r edefyn o fewn y blwch gwyrdd. Mae yna un ger mynedfa Nant-yr -Ynys. Falle fydd raid prynu Hwb sy'n gyson a'r band eang.

Y diweddaraf wrth BT ar y 21ain o Fedi yn datgan fod Openreach am ddileu gwifrau copr erbyn 2025 ac mi fydd yna lawer o flychau gwyrdd erbyn hynny. Felly'r unig gyswllt ffon fydd drwy'r band eang neu ffon symudol.

Os ydych yn talu BT am wasanaeth ffon yna rhaid bod rhywun yn gyfrifol am ei gynnal. Mae'n debyg fod eraill yn wynebu'r un her hefyd.

Felly gobeithio i hyn oll fod o gymorth.

Cadwch yn saff. Cadwch yn ddiogel! Eich cyfaill cyfrifiadurol – Dave.

## **Menter Gorllewin Sir Gâr**

O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu barhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth parthed cyfyngiadau.

### **NEWYDD! Ffitrwydd a Siapio:**

Rydym yn ail-gydio yn ein sesiynau Ffitrwydd a Siapio gyda Siân Spencer ym mis Medi, yn Neuadd yr Eglwys, Castell Newydd Emlyn yn cychwyn ar nos Wener y 24ain o Fedi o 5:30-6:30yp. £20 am 4 wythnos. Oherwydd niferoedd cyfyngedig bydd angen cofrestru o flaen llaw gyda [nia@mgsg.cymru](mailto:nia@mgsg.cymru).

### **NEWYDD! Noson Shwmae a Siopa:**

I ddathlu Diwrnod Shwmae Sumae ychydig yn wahanol eleni rydym yn trefnu noson Shwmae a Siopa yn Yr Atom, Caerfyrddin ar nos Wener y 15fed o Hydref o 5-7yh. Bydd cwmnïau lleol yr ardal yn bresennol gyda'u stondinau. Bydd angen dewis blwch amser sef 5-6yh neu 6-7yh a chofrestru gyda [ceris@mgsg.cymru](mailto:ceris@mgsg.cymru)

### **NEWYDD! Bore Hwyl Shwmae Sumae:**

Bydd y Fenter yn dathlu Diwrnod Shwmae Sumae gyda theuluoedd ym more hwyl Shwmae Sumae yn Neuadd y Ddraig Goch, Drefach Felindre ar ddydd Sadwrn yr 16eg o Hydref o 10-11 o'r gloch. Ymunwch â ni am gemau, canu, crefft a stori. Bydd angen i bawb gofrestru gyda [gwyneth@mgsg.cymru](mailto:gwyneth@mgsg.cymru) o flaen llaw.

### **NEWYDD! Sesiynau stori:**

Rydym yn cychwyn sesiynau stori mewn tair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau ar yr 20fed o Fedi, 4ydd a 18fed o Hydref. Ym Mhont Tyweli ar ddydd Mawrth yn y Pwerdy ar yr 21ain o Fedi, 5ed a'r 19eg o Hydref. Ac yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar yr 22ain o Fedi, 6ed ac 20fed o Hydref. Bydd y sesiynau yn cychwyn am 10:30yb ym mhob lleoliad. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda [gwawr@mgsg.cymru](mailto:gwawr@mgsg.cymru) i gofrestru.

### **NEWYDD! Parti Pampro:**

Edrychwn ymlaen at sesiwn rhithiol Parti Pampro ar yr 21ain o Hydref am 7:30yh. Cyfle i ddysgu sut i ymlacio ac edrych ar ôl y corff ac i ddysgu am ofal croen a hunan ofal yn eich trefn dyddiol. Bydd cyfle i holi cwestiynau hefyd. Bydd y sesiwn yma am ddim. I gofrestru cysylltwch gyda [gwyneth@mgsg.cymru](mailto:gwyneth@mgsg.cymru) erbyn 13/10/21 er mwyn derbyn eich pecyn o gynnyrch o flaen llaw.

### **Cyfryngau Cymdeithasol:**

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - [ceris@mgsg.cymru](mailto:ceris@mgsg.cymru)

neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platformau yma cysylltwch gyda Ceris dros y ffôn: 07939 962042.

## **CYLCH MEITHRIN BRONWYDD**

Y tymor hwn , rydym wedi dychwelyd i Neuadd Bronwydd wedi 18 mis i ffwrdd. Diolchwn i Neuadd yr Eglwys Llanllawddog yn fawr iawn am ein cartrefu dros dro rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Gorffennaf 2021. "Cylch y Goedwig" oedd am y cyfnod hwn, ac er bod ein rhifau wedi gostwng yn y Gaeaf gyda'r cyfnod clo ym mis Ionawr, roedd ein grŵp bach o blant yn bleser i'w gwarchod. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r teuluoedd am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd tuag at y Cylch.

Mae ein rhifau nawr yn cynyddu nôl ym Mronwydd, ac awyddus iawn yr ydym, i gynnig addysg a gofal i'n plant. Mae ein sesiynau Ti a Fi ar fore Gwener yn bwysig iawn ar gyfer sicrhau bod hyd yn oed y plant lleiaf yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hunan-hyder a sgiliau cymdeithasol sydd yn hanfodol i hybu lles.

Ein thema y tymor hwn yw y "Cynhaeaf". Rydym wedi dechrau'r tymor yn dysgu am y bwgan brain a'i bwrvpas o edrych ar ôl y cnwd yn y cae. Bu'r plant yn creu bwganod brain allan o wahanol ddeunyddiau. Nesaf bydd y plant yn dysgu am wenith a bara. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylch cysylltwch â Verona ar 07929 431652

Mae **Arts Care Gofal Celf** wrth eu boddau eu bod wedi derbyn cyllid parhad ar gyfer Brechfa Trwy'r Oesoedd

Yn darparu gweithgareddau creadigol i'r bobl sy'n byw yn ardal Coedwig Brechfa, 2021 – 2022. Nod y prosiect yw cefnogi lles, taclo unigrwydd ac annog ymgysylltu cymunedol trwy gyfrwng amrywiaeth o weithdai celf sy'n eich siwtio chi. Bydd y prosiect yn cael ei arwain gan bobl lleol, i gefnogi bobl lleol. Mae'r prosiect hyn yn bosibl diolch i gyllid oddiwrth Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa. Rydym yn croesawu eich sylwadau a'ch syniadau, i barhau â'r prosiect. (Copi digidol o'r arolwg ar gael, e-bost ar gyfer y ddolen [rachel@acgc.co.uk](mailto:rachel@acgc.co.uk) ) Cyswllt ebost: [info@acgc.co.uk](mailto:info@acgc.co.uk). Gwefan: [www.acgc.co.uk](http://www.acgc.co.uk)

Dolen Arolwg Prosiect

Parhad: <https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=QI5pBGcsiEiLLctXO9JgSul8bfB106FHm8k9dbIEGf5URVBTMlgxNIk0QkFKNIRMREtESkRPOTVFNi4u>

## **ChRA Ysgol Llanpumsaint PTA**

Hoffwn groesawi y disgyblion newydd i'r ysgol a dymuno pob lwc iddynt.

Dros y flwyddyn diwethaf mae'r ysgol wedi derbyn gwobr platinwm ysgol ECO, mae'r plant a'r athrawon wedi gweithio yn galed i ennill y wobr yma. Mae'r ysgol hefyd wedi derbyn y wobr "Healthy School" am fwyta yn iach.

Yn ystod tymor yr hâf roedd y plant yn ffodus i gael diwrnod yn nghwmni y Welsh Whisperer i ysgrifennu cân am yr ysgol. Fe fuodd menter iaith Caerfyrddin a Sgiliau yn cynnal sessiynau gyda'r plant yn yr ysgol.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i Mrs Ray Davies am ei gwaith yn yr ysgol dors y blynnyddoedd a dymuno ymddeoliad hapus iddi.

Dymuna'r ysgol i ddiolch i'r person di-enw sydd wedi enwebu'r ysgol i dderbyn taleb wrth Morrisons.

Fe fydd y plant yn beicio o amgylch y parc chwarae ar y 29fed o Fedi fel rhan o ymgyrch wythnos beicio i'r ysgol. Caryl

## Criced Llanpumsaint

‘Nol yn y 40degau a’r 50degau cynnar daeth criced yn boblogaidd iawn yn Llanpumsaint. Cae Pantycelyn ger Bont Newydd yr ochr draw i’r hewl o’r Cae Chwarae presennol dyna’r maes chwarae. Daeth terfyn yr Ail Ryfel byd yn 1945 ag awydd i fwynhau bywyd ac anghofio’r gorffennol trist. Fel madarch dros nos gwelwyd timau criced yn blaguro mewn amryw o bentrefi gwledig, a mwy fyth o amgylch tre Caerfyrddin. Gemau mawr pwysicaf Llanpumsaint oedd gartre ac i ffwrdd erbyn Cynwil a Cwmduad.

Llain digon cyntefig oedd hi ar gae Pantycelyn, lle ‘roedd hi’n bwysig osgoi’r tail da wrth dorri wiced. Y bel ac nid y bowliwr fyddai’n aml yn penderfynu ble i fynd. Gallai batio fod yn beryglus fel ffeindiodd y Ficer mas, pan dorrodd Trefor Tomos ein bowliwr cyflym ddau o’i ddannedd blaen. Rhai da yn ôl yr Offeiriad ond pwdr medde Trefor. Bydde’r bel yn glanio’n amyl yn yr afon Gwili, a dyna helfa fawr wedyn i’w hachub, oherwydd yr oedd peli criced yn ddrud ac yn brin. Gwelwyd tyrfa fawr, yn wragedd merched a phlant yn dod yno i wylio’r chwarae, llawer iawn mwy na welir yn Bronwydd y dyddie hyn.

Un noson ‘roedd tri ohonom ni blant yn cwtsio tu ôl yr hen sied bren ger y fynedfa, yn clustfeinio ar y Dewiswyr wrthi’n pigo Tîm i herio Cwmduad i ffwrdd. Gobeithio o’n ni fyddai lle i un ohonom ni o leiaf os o’n nhw’n brin. Tudor Nickolas, ein batiwr gore, Vidi Lloyd Y Swyddfa Bost ac un arall oedd wrthi. Aeth pethau’n hwylus a chyflym nes cyrraedd tua rhif naw a daeth enw Dai Green, Rheolwr y Co-op Ian. Aeth yn ddadl ffyrnig ac uchel wrth i Vidi gyfeirio at y Llyfr Sgorio, a bod Dai wedi methu gyda’r bat bob tro. Gweiddi nawr nes i Tudor daranu “Chi ffili gadel Dai mas achos mae i gar e’n cario chwech”. Tawelwch wrth i drafnidiaeth ennill. Lan i Gwmdau, colli, Dai mas heb scorio unwaith eto, ond detho’n ni gyd ‘nol yn saff yn gwt ei gar.

Bu’r gwahoddiad i fynd yr holl ffordd lawr i Lanyfferi mewn oes pan oedd ceir yn aml dorri lawr yn antur fawr. Wedi cyrraedd gweddodd eu capten y dyn Yswiriant caredig, “Cewch chi fatio’n gynta’ bois, er mwyn rhoi cyfle i ddreifars eich ceir gael i wynt ‘nol!’. Dyn neis! Mat ar y tywod, un ffin ochr y crugiau a’r ffin arall i’r môr, a dyma ni’n cyrraedd rhyw bedwar deg rhediad. Dim rhy ddrwg ond pan fatiodd Glanyfferi daeth y llanw mewn yn gyflym a fuon nhw fawr o dro yn cyrraedd ein sgôr ag ennill. Un llais bach siomedig o gwt y car wrth ddychwelid, “Pidwch fyth ymddiried yn dyn Insiwrans!”

Yna bron fel eira dros nos diflannodd criced lleol yn y chwedegau. Hesb fu’r gêm nes y saithdegau hwyr, pan welwyd ffrwydrad o ddiddordeb mewn chwarae unwaith eto. Ail ffurfiwyd tîm yn Bronwydd yn 1978, ac er na ddigwyddodd dim yn Llanpumsaint, dros y deugain mlynedd a mwy nesa’, ymunodd nifer fawr o chwaraewyr yr ardal honno ym Mronwydd. Arwyn 2021

### Cynhelir y Cyfarfod . Cyngor Cymuned Llanpumsaint

*Yn unol a gofynion adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am rheolaeth ariannol y Clerc o gyllyd Cyngor Cymuned Llanpumsaint, rhaid cynnal cyfarfod agored i drafod yr adroddiad a’r canfyddiadau. Cynhelir y cyfarfod hyn yn y Neuadd Goffa ar Nos Fercher 03.11.2021, gyda’r cyfarfod yn cfychwyn am 7.30.*

*Mi fydd rhaid cyfyngu nifer y gynulleidfa oherwydd amodau COVID i 30.*

*Ynghyd a materion arall, trafodir:*

***Gan gychwyn yn Ebrill 2018 hyd at ddiwedd 2020, mae’r Clerc wedi rhwystro cwbllhau’r archwiliad oherwydd iddo wrthod darparu dogfennau anghenrheidiol ac esboniadau ond yn hytrach wedi trwmlwytho’r archwiliad gyda ei llythyron helaeth ond dibwrpas. (Pwyntiau Allweddol 13)***

*Mi fydd y Clerc yn dod a chopiau o’r llythyron i’r cyfarfod, er mwyn i’r gymuned benderfynnu a ydi beirianadaeth yr Archwilydd yn gywir.*

*Pwrpas y cyfarfod yw:*

- *Oes angen i’r Cyngor gymeryd camau gweithredol yng ngoleunu’r adroddiad*
- *Ydi’r Cyngor yn derbyn canfyddiadau’r adroddiad ac*
- *Os felly beth fydd ymateby Cyngor(os o gwbl) i’r adroddiad a’r canfyddiadau.*



# Village Voice October 2021

**Copy Date for next Edition 26<sup>th</sup> November 2021**

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY



Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website [www.llanoumsaint.org.uk](http://www.llanoumsaint.org.uk). We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



Two views of Llanpumsaint from John Hubert. Many thanks John. To see more photos try this link:  
<https://tinyurl.com/25e5b5dt>.



Autumn webs by Edward Davies



Scarecrows at the Cylch - Verona



House martins having a planning meeting Helen Thomas



Kitten with 9 lives! Edward Davies



Baby swallow, briefly grounded – Clare Bishop

## **Useful dates and phone numbers:**

**Becky Veg – 07969 0447045**

**Roz hairdresser – 07398 620649**

**To book Hall      01267253028, [llanpumsainthallbooking@gmail.com](mailto:llanpumsainthallbooking@gmail.com)**

**Bowls – Monday and Thursday in the Hall 7.30 – 9.30**

**Treasure Hunt Saturday 23<sup>rd</sup> October Details on Poster in Village Voice**

**Clwb Gwili is starting again at 2pm Mondays Bronwydd Hall**

**25<sup>th</sup> October – Speaker Jeremy John**

**11<sup>th</sup> November – Speaker Arwyn Thomas**

**8<sup>th</sup> December (to be confirmed) Christmas Lunch**

**Secretary Val Giles 01267 281194**

**Quiz, Sunday 31<sup>st</sup> October, Hollybrook Inn 8.00**

**Public Meeting - Community Council Wednesday 3<sup>rd</sup> November 7.30 Llanpumsaint Hall**

**Annual General Meetings in Llanpumsaint Hall**

**Llanpumsaint Community Information Exchange (Village Voice and Website) 2<sup>nd</sup> Nov 7.30**

**Llanpumsaint Hall Tuesday 9<sup>th</sup> November 8.00pm**

To add your club details, events or meetings, please email Carolyn Smethurst [info@gwilimill.com](mailto:info@gwilimill.com)

## **Llanpumsaint Welfare and Recreation Association - Autumn Update**

Autumn is well and truly in the air as Llanpumsaint Park's floor begins to fill with leaves, and the grass feels heavy with each morning's dew. The August sunny weather seems an age away, but the community certainly made the most of the park over the summer, with the 1,000 Mile Challenge bringing a huge portion of the community together in combining efforts to raise money for good causes.

The challenge set a high bar in aiming to complete 5,000 laps of the park footpath over ten days, that being the equivalent of 1,000 miles in total distance. Participants were seen in the early hours of the morning and late into the night getting in their laps in. This gave many a reason to get up and go, becoming part of their daily routine. Other more seasoned runners became competitive amongst each other, and the daily total lap count kept jumping up at ever greater advances.

In total, 2,778 laps were recorded, being the equivalent of 572 miles. The total money raised was £2,000, when including £500 worth of match-funding provided by HSBC. 5,000 laps were too much of a mountain to climb, but hopefully the Challenge served as a fitting event to bring the community together, and a good reason to get out and enjoy the end of the summer season. All money raised will be split between the Peony Breast Care Unit Llanelli, and to continue funding the general upkeep of the park.

The award for most solo laps has been awarded to Committee member Lee Davies, having completed 319 in total, 100 of which were completed in a single day, well done Lee! Thanks to every single person to who took part and donated, it would be great to know your feedback or ideas of how to do it differently next time.

In other news, the committee are currently compiling the results of the Llanpumsaint Park Improvements Survey, which gave everyone a chance to give their ideas of what they would like to see in the park in future. Thanks to everyone who took part.

On Saturday the 23<sup>rd</sup> of October, the Committee are organizing a Treasure Hunt, following the fantastic success of the last one which took place in May 2019. Please see the poster included within this issue of Village Voice for more information on how to take part.

Once again, the committee is actively seeking new members, as well as the secretary role currently being vacant. For further information on how to become a committee member, or find out more about our current fundraising activities, please email [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com), or speak with one of the present Committee members. Aaron 07814157946

## **Llanpumsaint Views in HD**

I like Llanpumsaint. I don't live there, but over many years I have walked its paths and public areas. Exploring a place on foot is without doubt the best way to really get to know and appreciate a specific location. Many people might claim to know Llanpumsaint because they drive through it regularly. But even a friend who is a keen cyclist and rides to the village from the north and then goes east towards Brechfa didn't know that there is a school and a church there.

However, in 2019, inspired by our son, who is a professional cameraman in New Zealand, I bought a quadcopter with a camera. Of course, it is also known as a drone. Mine was not to be feared as I could carry it in my coat pocket. So now I have an amazing new way to see, explore and appreciate familiar places. It is not as good, or as good for you as walking, but the pictures add a higher level of understanding and deeper appreciation.

Because of the pandemic, and older age, I have never travelled far or taken risks to obtain spectacular aerial videos such as one can see on the internet. Almost all the pictures are of the landscapes around farms or villages a few miles from home. A successful flight with the photography requires many conditions to be perfect.

Well, on a morning visit to Llanpumsaint on the 14<sup>th</sup> of September I was able to take some good aerial pictures of the different parts of the village and I am inviting you to view some of them. They are on Google Photos and a link to the "album", *Llanpumsaint Views in HD* is here.

- A) <https://photos.app.goo.gl/A8TMf9pSKtLRT5hH9>
- B) <https://tinyurl.com/25e5b5dt>
- C) [Llanpumsaint Views in HD](#)

The reason I have included "in HD" in the album title is that HD (high definition) is the current video format for TV transmission and these photos have been reduced to that format of typically 1920x1080 pixels. This makes them easier to upload and download and suitable for most screens. You can zoom in a little further, but these photos were over 4 times more detailed when they came out of the camera.

## **VIEWING TIPS**

These tips relate best to when using a Windows desktop.

Click on the left or right photo to open it; click on the photo or use the arrow at the middle of the right edge to view the next image. They are best viewed full screen. Pressing key F11 in most browsers does this. There are buttons in the top right corner to zoom in a little and under the three vertical dots an option to run a slideshow and another to download the picture or the whole collection. They are free to download and pass on and make any reasonable and legal use of them.

I find it revealing and fascinating to relate the views to maps such as Bing OS and Google Earth. For example, tracking the path of the river and its tributaries is educational.

I do hope you enjoy these views of your home patch. *John Hubert*

## **LLANPUMSAINT 100 CLUB**

Here are the lucky winners for the September, October and November Draws :-

SEPTEMBER £20 - No. 23, Heledd Jones. £15 - No. 25, Aaron Jones £10 - No. 90, John Francis.

